PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 2 EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Owen Jones, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood |

77 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Philippa Hill-John a Lancaster.

78 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

79 : RHAGLEN AILOSOD ARWYNEBAU NEWYDD AR BRIFFYRDD

Croesawodd y Cadeirydd Y Cynghorydd Caro Wild, Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio Trafnidiaeth a Rheolwr Gweithredol yr Amgylchedd a Gary Brown, Cynllunio Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau eu bod yn cael cyfle i ystyried y rhaglen ailosod arwynebau newydd ar briffyrddd ar gyfer 2018/19. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu'r Rhestr o Gynlluniau Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd ac ystyried y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth greu'r ddogfen hon.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau am y Matrics, sut y cafodd ei lunio ac a gafodd ei fewnbynnu â llaw neu a ddefnyddiwyd mesuriadau a osodwyd ymlaen llaw. Eglurodd y swyddogion fod y Matrics yn nodi'r blaenraglen ar gyfer y flwyddyn a bod llawer o wybodaeth yn cael ei bwydo iddi, gan gynnwys gwybodaeth o'r sganwyr ar brif lwybrau, yr arolwg SCRIM, AEI, cwynion, ymholiadau gan Aelodau ac ati. Caiff yr holl wybodaeth ei bwydo i mewn er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau yn nhrefn eu cyflwr h.y. Gwaith Ailadeiladu/Mewnosod/Ataliol. Rhoddir pwysoliad neu sgôr o 100 i 0 ar bob darn gwaith yn seiliedig ar gyflwr.

Nododd yr Aelodau fod gwahanol heolydd yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd a bod ganddynt lefel wahanol o ddefnydd; gan ofyn a oes gwahaniaethu rhyngddynt wrth ystyried y pwysoliad. Eglurodd swyddogion ei fod yn un o'r ffactorau, bod traffig a gwybodaeth leol yn ddefnyddiol i benderfynu pa ffyrdd sydd brysuraf. Rhoddwyd enghreifftiau gan gynnwys y ffaith bod yr A4232 yn cael ei dynnu o'r system fel ffordd gyfan am ei fod yn rhy hir a bod angen ei roi mewn adrannau; a hefyd ffyrdd pen-gaeedig a all fod â llai o ddefnydd traffig ond a all gael eu gadael heb eu trin am flynyddoedd. Esboniodd swyddogion fod defnyddio'r dull hwn yn ffactor arwyddocaol, ond rhaid cydbwyso hyn â gwariant y gyllideb fesul cam.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion yn dibynnu ar bobl yn adrodd am broblemau; esboniodd swyddogion fod y mwyafrif helaeth o ffyrdd yng Nghaerdydd

yn cael eu harolygu o leiaf bob 12 mis, ond bod cwynion a gofnodir hefyd yn cael eu hystyried.

Gofynnodd yr Aelodau faint o bwys a oedd yn cael ei ychwanegu at y gŵyn pe bai Aelod yn rhoi gwybod amdano, neu'n dweud sawl gwaith, ac fe'i cynghorwyd, gan fod yr Aelodau yn cynrychioli llawer o drigolion, ei fod yn nodi pwyntiau ychwanegol, y byddai hysbysu am fwy nag un flaenoriaeth yn dibynnu beth oedd angen ei wneud addasrwydd/defnyddioldeb y ffordd.  Ychwanegodd swyddogion fod Swyddog yn y tîm sy'n casglu ymholiadau gan Aelodau, yn ymateb ac yn anfon swyddogion allan i archwilio.

Nododd yr Aelodau eu bod yn arfer derbyn rhestr swyddi ar gyfer yr holl ffyrdd yng Nghaerdydd, ond erbyn hyn dim ond y ffyrdd yn eu wardiau y maent yn eu derbyn, gan ofyn pam mae hyn wedi newid.  Nododd swyddogion fod rhestr gyhoeddedig o waith ar y wefan; mae'r rhestr flynyddol i Aelodau wedi'i gwneud yn wahanol eleni, ond roeddent yn croesawu'r adborth ac aelodau'n cymryd rhan yn y gwaith o lunio'r rhestr.  Ychwanegodd swyddogion y gellid bod wedi goruchwylio'r modd y rhannwyd y wybodaeth eleni ac y byddent yn ei hystyried.

Gofynnodd yr Aelodau pa fesurau diogelwch sydd ar waith i sicrhau bod yr holl Aelodau'n cael gwybod os yw ffordd mewn mwy nag un ward.  Esboniodd swyddogion ei bod yn arfer safonol i hysbysu holl Aelodau'r ward os yw'r ffordd mewn mwy nag un ward.

Cyfeiriodd yr Aelodau at ansawdd gwaith ailosod arwyneb newydd yng Ngogledd Caerdydd a gofynnwyd pa fesurau diogelwch oedd ar waith i wirio'r gwaith ar ôl iddo gael ei gwblhau.  Esboniodd y swyddogion fod y gwaith yn cael ei archwilio ond os oedd unrhyw broblemau o ran ansawdd, anogwyd yr Aelodau i roi gwybod amdano.  Esboniodd swyddogion fod angen nifer o wythnosau ar rhai triniaethau ffordd iddynt setlo.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw sylw arbennig yn cael ei roi i ffyrdd mewn ardaloedd cadwraeth ac fe'u cynghorwyd nad oedd hynny'n amlwg ond rhoddwyd sylw arbennig i'r troedffyrdd drwy ardaloedd cadwraeth.

Gofynnodd yr Aelodau beth sy'n digwydd pan na ellir gwneud gwaith sydd wedi'i gynllunio oherwydd bod ceir wedi'u parcio yno a sut mae hyn yn effeithio ar y ffyrdd hynny sy'n cael eu rhoi ar y rhestr.  Eglurodd swyddogion fod ceir wedi'u parcio yn broblem enfawr, y dylai'r ffordd aros ar y rhestr ond y byddid yn ceisio cael rhagor o wybodaeth am y stryd benodol y soniwyd amdani.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor wael fyddai'r ffordd yn gorfod bod er mwyn bod yn flaenoriaeth a pha mor aml mae hyn yn digwydd a'r ffyrdd yn codi ar y rhestr.  Dywedodd swyddogion nad yw hyn yn digwydd yn aml iawn, gan fod yn rhaid trin pethau fel arllwysiadau disel sy'n golygu bod ffordd hynny'n cael blaenoriaeth, roedd atgyweiriadau brys yn brin iawn gan y byddai'r gost yn enfawr.  Nododd yr Aelodau hyn a gofynnwyd sut mae swyddogion yn sicrhau nad yw ffyrdd yn cael eu hoedi'n barhaus.  Eglurodd swyddogion fod ailadeiladu yn cymryd cyfran enfawr o'r gyllideb, eu bod yn blaenoriaethu ar gyflwr ac yn defnyddio gwaith lleol i gadw wedyn ei ddefnyddio yn y cyfamser.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r rhaglen ar gyfer 2019/2020 ar gael ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniad a dywedwyd wrthynt y byddai swyddogion yn dechrau ar y broses yn fuan; roedd arian ar gael i edrych ar gontractau hirach os yw'r perfformiad yn dda. Ychwanegodd swyddogion y byddent yn rhannu gwybodaeth cyn gynted â phosibl pan fyddai'n cael ei chynhyrchu ar y lefel gywir. Nodwyd y gall rhestrau fod yn newidiol a bod angen rhywfaint o hyblygrwydd.

Gofynnodd Aelodau a oedd yr Aelod Cabinet yn archwilio ffyrdd gyda Swyddogion fel yr oeddent wedi gwneud o'r blaen ac fe'u hysbyswyd bod y Swyddogion wedi cynnal yr arolygiadau.

Anogodd yr Aelodau'r Swyddogion i hysbysu Aelodau lleol pan fyddant allan yn arolygu ffyrdd gan y byddai'r Aelodau'n gallu tynnu sylw at feysydd eraill sy'n peri problemau. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod swyddogion yn hapus i drafod unrhyw faterion gydag aelodau lleol ar unrhyw adeg, ond na ellid clymu amser swyddogion i gyfarfod aelodau ar yr ymweliadau.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd rhestr o weithfeydd palmentydd ar gael ac y gellid ei darparu yn ôl yr angen.

Cyfeiriodd yr Aelodau at ailosod arwyneb newydd ar bibelli draenio a dywedodd swyddogion eu bod wedi cysylltu â'r contractiwr ynghylch y mater hwn a bod y gwaith wedi'i wella ar gost y contractwyr.

Nododd yr Aelodau ei fod yn gostus i atgyweirio palmentydd gyda slabiau palmant a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i edrych ar ddefnyddio tarmac yn lle hynny. Dywedodd swyddogion eu bod yn ystyried rhoi mwy o arian i lwybrau troed gan ei fod yn ddrud, mae swyddogion yn targedu ardaloedd lleol ond mae angen parhad; a bod torri slabiau yn digwydd yn gyson oherwydd camddefnyddio cerbydau a bod hyn yn her wirioneddol.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 80 : FFERM SOLAR FFORDD LAMBY - Y CYNNYDD DIWEDDARAF

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd, ac Andrew Gregory, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau eu bod yn cael cyfle i ystyried papur o'r enw 'Fferm Solar Ffordd Lamby - y Cynnydd Diweddaraf'. Byddai hyn yn ystyried y cynnydd a wnaed ers cyflwyno achos busnes manwl i'r Cabinet ym mis Mehefin 2018, ac yn adolygu'r camau nesaf ar gyfer y prosiect.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cyng. Michael i wneud datganiad lle dywedodd ei fod wedi penderfynu fis Gorffennaf diwethaf y dylai'r Cyngor gynhyrchu ei ynni solar ei hun, bod angen i'r prosiect fod yn gyflawnadwy a thalu amdano'i hun. Roedd llawer o brosiectau'n cael eu trafod o ran datgarboneiddio gan gynnwys pyst lampau LED ac roedd y Cyngor yn ymrwymedig i'r agenda hwn. Roedd y fferm solar yn y broses gynllunio a gobeithio y byddai ar waith erbyn diwedd yr haf/dechrau'r Hydref, gan gyfrannu at allbwn trydan y cyngor a 1600 tunnell yn llai fesul blwyddyn o garbon.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Roedd yr Aelodau'n falch o'r prosiect ond gofynnwyd a fyddai Brexit yn cael unrhyw effaith ar ddod o hyd i rannau oherwydd cytundebau masnachu a allai newid. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y rhan fwyaf o'r cydrannau'n cael eu gwneud yn Tsieina a bod digon o amser paratoi yn cael ei drefnu, felly ni ddylai fod unrhyw broblem.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gyfrifiadau wedi'u gwneud o ran gwerth yr ewro/punt ac effaith Brexit. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd, oherwydd os oedd y cynllun yn dibynnu ar hynny byddai wedi bod yn rhy fregus i lwyddo.

Croesawodd yr Aelodau'r cynllun gan ofyn beth oedd yn cael ei wneud i wella Bioamrywiaeth yn yr ardal. Esboniodd y swyddogion fod cynllun gwella a chynllun rheoli ecolegol ar gael ar gyfer tymor y fferm ac y gellid darparu rhagor o wybodaeth. Ychwanegwyd mai SODDGA yw rhan isaf y safle, mae yna raglen oes gyfan, fyddai'r safle ddim yn ddiffrwyth byddai'n dal i fod mewn bywyd gwyllt yno ond yn ystod datblygiad byddai angen iddo ail-leoli'r slorymod.

Roedd aelodau o'r farn y gallai fod cysylltiad â'r llwybr arfordirol i wella'r ardal gan ychwanegu at fanteision solar, gan nodi y bydd yr Aelodau lleol am gael llais mawr yn yr hyn sy'n digwydd i weddill y safle.

Nododd yr Aelodau'r bartneriaeth â Dŵr Cymru a gofynnwyd a oedd unrhyw sefydliadau wedi bod â diddordeb yn y cynllun. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi gweithio gyda Dŵr Cymru ar ddigonedd o brosiectau dros y blynyddoedd a bod y bartneriaeth yn gweithio'n dda; gall unrhyw un arall fod yn bartner os oes cytundeb ariannol dda; ni fydd y cynllun yn darfod ymhen 15 mlynedd, bydd yn newid dros amser a gallai hynny olygu newid mewn partneriaid hefyd. Ychwanegodd swyddogion fod cyfle hefyd i gysylltu â Ffordd Lamby ar gyfer y fflyd e-gerbydau, yn ogystal â phartneriaethau manwerthu a hamdden posibl.

Gofynnodd yr Aelodau am y gyfradd enillion o 35 mlynedd a ragwelwyd; dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n well ganddo beidio â siarad am wybodaeth ariannol tra roeddent yn dal yn y cyfnod caffael.

Gofynnodd yr Aelodau am y pŵer megawat ychwanegol a fyddai'n cael ei gynhyrchu a gofynnodd faint o gartrefi y byddai hyn yn cynhyrchu pŵer ar eu cyfer. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod hyn ar raddfa tua 600 o gartrefi.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

81 : CYNLLUN SGORIO HYLENDID BWYD - DIWEDDARIAD AR LAFAR

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu ei fod wedi cael cais o'r blaen i ddod â gwybodaeth am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Roedd gwybodaeth wedi'i chymharu â 2017 ac roedd tuedd gyffredinol o welliant.

Amlinellwyd y canfyddiadau allweddol ac roedd o'r farn bod y cynllun yn gweithio'n dda.

Roedd y Cadeirydd o'r farn efallai yr hoffai'r Aelodau ymweld â rhai safleoedd gyda swyddogion i weld sut y cânt eu hasesu.

82 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – RHAGLEN WAITH 2018/19 - ADRODDIAD AR LAFAR

Amlinellodd y Prif Swyddog Craffu'r eitemau posibl ar gyfer y rhaglen waith dros y misoedd nesaf. Bu'r Aelodau'n trafod eitemau ac yn blaenoriaethu pa eitemau yr hoffent weld eu cyflwyno a phryd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cais wedi'i wneud i alw i mewn yr Adroddiad ar Ansawdd Aer; ac roedd hyn gyda'r Swyddog Monitro ar hyn o bryd am benderfyniad.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu wrth yr Aelodau bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gynnal ar 23 Ebrill 2019 am 5pm yn Neuadd y Sir; bydd y cyfarfod cyntaf yn drosolwg o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar y Dull/Cynllunio Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd.

83 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

84 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Pwyllgor Craffu Amgylcheddol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer Dydd Mawrth 7fed Mai 2019 am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgora 4, Neuadd y Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00 pm